Healthy Start, Brighter Future

# Dechrau gwych i fabanod a phlant ifanc

Mae pawb eisiau'r gorau i'w plant, ond gall fod yn anodd gwybod beth i'w wneud fel rhiant yn y blynyddoedd cynnar. Dyna lle mae HENRY o gymorth.

Mae rhaglen HENRY yn eich helpu i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i'ch plentyn.



*"Newidiodd y rhaglen hon fy mywyd."*

**www.henry.org.uk**

## Ynglŷn â'r rhaglen

Mae'r rhaglen ar gyfer rhieni neu ofalwyr plant rhwng 0 a 5 oed. Mae ymuno yn rhad ac am ddim.

Mae pawb eisiau'r gorau i'w plant, ond oherwydd bod cymaint o gyngor anghyson, gall fod yn anodd gwybod beth yw'r peth gorau i'w wneud fel rhiant, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar.



Mae rhaglen **HENRY *Teuluoedd Iach: O'r Cychwyn Cyntaf*** pyn rhedeg yn lleol. Ymunwch â'r miloedd o deuluoedd ledled y wlad sydd wedi elwa o'r gefnogaeth a'r awgrymiadau y mae'n eu darparu i deuluoedd ifanc.

Mae ymchwil yn dangos mai'r elfennau allweddol i sicrhau bod babanod a phlant ifanc yn cael dechrau iach mewn bywyd yw:

- Hyder wrth fagu plant
- Gweithgarwch corfforol i blant
- Beth mae plant a theuluoedd yn ei fwyta
- Arferion ffordd o fyw teulu
- Mwynhau bywyd fel teulu

Mae'r rhaglen yn cwmpasu'r 5 thema hon dros 8 wythnos ac yn darparu popeth sydd ei angen arnoch i helpu i sicrhau bod eich plentyn yn cael dechreuad gwych.

## Sesiynau wythnosol

Mae pob wythnos yn eich helpu i ddarparu amgylchedd iach, hapus a chefnogol i'r teulu cyfan.

**Wythnos 1** - Penderfynu pa newidiadau rydych chi am eu gwneud a gosod eich nodau eich hun

**Wythnos 2** - Sut i jyglo bywyd gyda phlant ifanc fel eich bod chi i gyd yn cael yr hyn sydd ei angen arnoch chi

**Wythnos 3** - Sut i ymateb i anghenion plant heb ildio i bopeth y maen nhw'n gofyn amdano

**Wythnos 4** - Awgrymiadau cadarnhaol ar gyfer amser bwyd ar gyfer teulu hapus - lleihau straen amser bwyd i bawb

**Wythnos 5** - Syniadau ar gyfer chwarae actif i helpu plant i ddysgu, i ddatblygu ac i aros yn hapus

**Wythnos 6** - Grwpiau bwyd, labeli bwyd, maint dognau ar gyfer plant dan 5 oed, bwydydd cyntaf ac opsiynau amgen ar gyfer byrbrydau

**Wythnos 7** - Deall a rheoli ymddygiad eich plentyn er mwyn cael cartref hapusach

**Wythnos 8** - Dathlu eich llwyddiant fel rhiant a chynllunio dyfodol eich teulu

*"Rwy'n ei argymell yn fawr. Roedd yn wych."*



## Ydy'r rhaglen HENRY i mi?

Gall rhaglen HENRY helpu pawb sydd â babi neu blentyn ifanc. Mae pob rhiant sy'n ymuno yn dysgu rhywbeth newydd a defnyddiol.



Os oes gennych o leiaf un plentyn o dan 5 oed ac yn rhoi ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r cwestiynau isod, yna mae HENRY ar eich cyfer chi:

- Hoffech chi deimlo'n fwy hyderus fel rhiant?
- Hoffech chi gael cefnogaeth i roi dechrau iach i'ch plentyn?
- Ydych chi'n dymuno y byddai'ch plentyn yn bwyta mwy o ffrwythau a llysiau?
- Hoffech chi leihau straen amser bwyd?
- Hoffech chi fwynhau bod yn actif gyda'ch gilydd fel teulu yn amlach?
- Oes gennych chi ddiddordeb mewn syniadau i gael plant i ffwrdd o'r teledu?

## Beth yw HENRY?

Mae HENRY yn elusen sy'n gweithio i roi dechrau iach mewn bywyd i fabanod a phlant ifanc.

## Beth mae rhieni eraill yn ei ddweud?

- Byddai 97% o rieni yn ei hargymell
- Mae 89% yn teimlo'n fwy hyderus fel rhiant

*"Rydw i mor falch fy mod i wedi gwneud y rhaglen hon. Cerwch amdani!"*

*"Y rhaglen hon oedd y peth gorau y gallwn fod wedi ei wneud i'm helpu i fod yn fam well"*

## Beth ydw i'n ei gael ar raglen HENRY?

Mae pob rhiant sy'n ymuno â rhaglen HENRY yn derbyn pecyn cymorth HENRY sy'n cynnwys popeth y bydd ei angen arnoch yn ystod y rhaglen ac adnoddau defnyddiol i'ch teulu eu defnyddio.

Bydd pecyn cymorth HENRY yn eich helpu i roi dechrau gwych mewn bywyd i'ch plentyn, i gael y teulu cyfan i gymryd rhan, ac i gadw golwg ar ba mor dda rydych chi'n ei wneud.




Pecyn Cymorth Rhieni HENRY

## Sut alla i ymuno â rhaglen ar-lein?

Bydd rhaglenni HENRY ar-lein yn rhedeg yn lleol yn fuan. Siaradwch â'ch Ymwelydd Iechyd neu'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol i gael rhagor o wybodaeth, i'ch helpu i benderfynu a fyddech chi'n ei fwynhau, neu i ofyn i ymuno â rhaglen.

Sganiwch fi

**Sganiwch y cod QR hwn i wylio'r fideo ar gyfer Wythnos 1**

**I gael rhagor o wybodaeth am HENRY, ewch i:**

www.henry.org.uk
@HENRYHealthy
facebook.com/HENRY.HealthyFamilies
01865 302973

Cydgysylltydd y Rhaglen ar gyfer Cwm Taf Morgannwg:
T: 07553834076 E: HENRY_CTM_PHW@wales.nhs.uk



Rhif elusen 1132581 | Rhif cwmni 6952404